## BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB)**

**PWNC:** **CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB) - DYDD LLUN, 26 GORFFENNAF 2021 DYDD LLUN, 26 GORFFENNAF 2021**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL:

Cynghorwyr: M. Cook (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
D. Bevan
M. Cross
G. A. Davies
G. L. Davies
M. Day
P. Edwards
L. Elias
K. Hayden
J. Hill
W. Hodgins
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
M. Moore
L. Parsons
G. Paulsen
K. Rowson
T. Smith
B. Summers
S. Thomas
H. Trollope
B. Willis
L. Winnett

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y Cynghorwyr S. Healy, J.C. Morgan, D. Wilkshire a T. Sharrem. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:-<br><br>Cynghorydd B. Summers – Eitem Rhif 7 – Monitro'r Gyllideb Refeniw 2020/2021 All-dro Darpariaethol (Silent Valley)<br><br>Cynghorydd M. Cook – Eitem Rhif 7 – Monitro'r Gyllideb Refeniw 2020/2021 All-dro Darpariaethol (Silent Valley)<br><br>Cynghorydd P. Edwards – Eitem Rhif 7 – Monitro'r Gyllideb Refeniw 2020/2021 All-dro Darpariaethol (Marchnadoedd) | |
| **No. 4** | **<u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u>**<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor fod cyfarfodydd o'r Pwyllgor Craffu yn parhau i gychwyn am 10.00 a.m. yn y dyfodol. | |
| **No. 5** | **<u>CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>DALEN WEITHREDU – 15 MAWRTH 2021</u>**<br><br>Y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Cydbwyllgor Craffu (Monitro'r Gyllideb) a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2021. | |

| | | |
|---|---|---|
| | *<u>Parc yr Ŵyl</u>*<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 12 cofnodion y cyfarfod blaenorol lle dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol 'fod yr arian a dalwyd yn rhan o drefniant prydles gwrthdro'. Gofynnodd yr Aelod os yw'r trefniant hwn yn parhau.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y byddai'n ymchwilio a dod ag adroddiad yn ôl i'r cyfarfod nesaf.<br><br>*<u>Gorfodaeth Parcio Sifil</u>*<br><br>Mynegodd Aelod bryder am lefel yr incwm a dderbynnir o hysbysiadau cosb sefydlog.<br><br>Mewn ymateb cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod y deilliannau ar gyfer y gwasanaeth yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn yr achos busnes a gyflwynwyd yn 2019 a'r model a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Fodd bynnag, cynhelir adolygiad o'r 12 mis diwethaf a rhoddir adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol tuag at ddiwedd y flwyddyn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 7** | **<u>MONITRO CYLLIDEB REFENIW – ALL-DRO DARPARIAETHOL 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi manylion:<br><br>• Sefyllfa all-dro darpariaethol ar ddiwedd 2020/2021<br>• Manylion amrywiadau niweidiol sylweddol<br>• All-dro darpariaethol ar gyfer Ffioedd a Thaliadau<br>• Cynnydd ar gyflawni prosiectau Pontio'r Bwlch ar gyfer 2020/2021<br><br>Mae'r adroddiad yn rhan o'r fframwaith adroddiadau ariannol i Aelodau. | |

Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad yn fanwl a thynnu sylw at y pwyntiau allweddol ynddo. Roedd y sefyllfa ariannol gyffredinol ar draws pob portffolio ar 31 Mawrth 2021 yn amrywiad ffafriol o £2.639m (1.7%) o gymharu â chyfanswm cyllideb refeniw o £152m. Fodd bynnag, mae'r ffigurau yn ddarpariaethol a chânt eu harchwilio'n allanol. Roedd yr all-dro yn welliant sylweddol ar y rhagolwg sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020, pan oedd y rhagolwg yn amrywiad ffafriol am £0.6m.

Mae Tabl 1 yn adran 5.1.3 yr adroddiad yn dangos yr all-dro darpariaethol ar draws pob portffolio.

Dywedodd y Prif Swyddog yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa diwedd blwyddyn ac i gefnogi cydnerthedd ariannol y Cyngor, y gwnaed trosglwyddiad pellach o £1.2m o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi gyda'r balans o £1.4m yn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn cyffredinol.

Dywedodd Aelod mai dyma'r sefyllfa ariannol fwyaf ffafriol iddo weld ers iddo ddod yn Aelod etholedig a diolchodd i'w gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth yn ystod pandemig Covid. Dywedodd y cafodd pob agwedd o'r gyllideb eu rhoi yn eu lle gyda chefnogaeth Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dywedodd fod y gefnogaeth a dderbyniwyd wedi amlygu ansefydlogrwydd y Cyngor a heb y gefnogaeth ariannol dywedodd y byddai'r Cyngor mewn sefyllfa ddifrifol.

Holodd hefyd am y penderfyniadau gwleidyddol a gymerwyd o fewn portffolio'r Amgylchedd sy'n dangos amrywiad anffafriol sylweddol yng ngoleuni sefyllfa ariannol gadarnhaol y Cyngor.

Hefyd holodd yr Aelod yr angen am ail ganolfan ailgylchu HWRC, yn neilltuol oherwydd y diffyg incwm a ddisgwylir yng nghyswllt gwerthu deunyddiau ailgylchu. Dywedodd y credai y dylai'r pryderon a'r pwysau o fewn y gwasanaeth fod wedi ffurfio sail y penderfyniad i agor ail ganolfan ailgylchu.

Cyfeiriodd Aelod at y cymorth ariannol unwaith yn unig a roddwyd gan Lywodraeth Cymru a amlygir yn adran 5.1.8 yr adroddiad a gofynnodd os y byddai'n rhaid dychwelyd unrhyw arian nas gwariwyd yng nghyswllt arwyddion pellter cymdeithasol i Lywodraeth Cymru.

Atebodd y Prif Swyddog Adnoddau na wyddai am delerau ac

amodau'r cyllid ar gyfer arwyddion pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, esboniodd os yw'r cyllid wedi ei neilltuo, y byddai'n rhaid dychwelyd unrhyw arian nas gwariwyd ond os nad oedd y cyllid wedi ei neilltuo gallai'r Cyngor ei gadw a'i wario mewn man arall.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod yng nghyswllt y taliad o £500 i weithwyr gofal, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y gwneir y taliad hwn hefyd i weithwyr gofal o fewn y sector preifat yn gweithredu o fewn Blaenau Gwent.

Wedyn cyfeiriodd Aelod at adran 5.1.30 a holodd am yr amrywiad niweidiol o fewn cyllideb cynnal a chadw y gaeaf.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth fod rhan o'r amrywiad niweidiol yn ymwneud ag offer ychwanegol sydd ei angen. Dywedodd hefyd, er mai ychydig o eira fu yn ystod y gaeaf, y bu'n aeaf oer gyda'r tîm graeanu allan weithiau ddwywaith y dydd, oedd wedi cynyddu taliadau wrth gefn ac allan o oriau.

Cyfeiriodd Aelod at y sylwadau blaenorol am yr angen am ail gyfleuster Canolfan Ailgylchu a dywedodd fod ailgylchu yn cael ei yrru gan dargedau a osodwyd gan WRAP a Llywodraeth Cymru. Roedd y Cyngor wedi ymateb a hyd yma ni fu unrhyw gosbau ariannol fel canlyniad i beidio cyrraedd y targedau hyn. Dywedodd fod preswylwyr eisiau cyfleuster ychwanegol oherwydd na fedrai New Vale ymdopi gyda'r galw yn y safle a phan fyddai'n llwyr weithredol, byddai gan yr ail Ganolfan Ailgylchu effaith gadarnhaol ar y tipio anghyfreithlon sy'n digwydd o fewn y Fwrdeistref ar hyn o bryd. Dywedodd fod angen i'r Cyngor sicrhau fod preswylwyr yn cael pob cyfle i ailgylchu er mwyn cyflawni ei dargedau ac atal unrhyw gostau bosibl rhag cael eu gosod.

Mewn ymateb dywedodd Aelod fod yn rhaid i'r Cyngor fesur beth sydd ei angen fel adnodd o gymharu â'r hyn y gallem ei fforddio. Roedd yn cofio pan y cynigiwyd ail Ganolfan Ailgylchu i ddechrau yn y weinyddiaeth flaenorol, roedd nifer o uwch swyddogion yn bendant nad oedd angen ail safle. Ei farn ef, ar sail y ffigurau, fod un safle Canolfan Ailgylchu yn ddigon.

Gofynnodd Aelod am i wybodaeth ychwanegol fod ar gael yn adroddiadau'r dyfodol ar lefel Cyllid Caledi Llywodraeth Cymru ar bob cyllideb.

| | | |
|---|---|---|
| | Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y rhoddir hyn yn adroddiadau'r dyfodol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach, dywedodd y Prif Swyddog y bu 2020 yn flwyddyn annisgwyl i bawb ac yn flwyddyn anodd i'r Cyngor o ran darparu gwasanaethau. Roedd ganddi bryderon sylweddol ar ddechrau'r flwyddyn am effaith ariannol y pandemig, ond oherwydd y cymorth ariannol unwaith yn unig a gafwyd gan Llywodraeth Cymru, medrodd y Cyngor ddod drwy'r storm ac ynghyd ag awdurdodau lleol eraill wedi medru neilltuo arian i gefnogi ein cydnerthedd ariannol yn y dyfodol gobeithio, a'n galluogi i ddelio gydag unrhyw bwysau annisgwyl yn y tymor byr i'r tymor canol. Fodd bynnag, dywedodd y Prif Swyddog fod ganddi bryderon tymor hirach gan fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi benthyca symiau sylweddol o arian i gefnogi'r ymateb i'r pandemig, ac y byddai'n rhaid talu benthyca yn ôl rywbryd. Fel canlyniad, efallai y gall ein setliadau o Lywodraeth y Deyrnas Unedig i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gael ei effeithio yn y tymor canol i'r tymor hirach ac efallai na fydd mor gadarnhaol ag a ragwelir, ac mae felly'n bwysig cael cronfeydd digonol wrth gefn.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer am gost deunyddiau ailgylchu pan esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth fod y costau yn cael eu gyrru gan rymoedd y farchnad a bu gostyngiad sylweddol yng ngwerth yr holl ddeunyddiau. Roedd costau gwaredu yn dal i fod yn gysylltiedig gyda'r deunyddiau nad oedd yn gostwng yn unol â gwerthiant.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad yn rhoi'r her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad. | |
| **No. 8** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB CYFALAF, ALL-DRO DARPARIAETHOL AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/2021 (FEL AR 31 MAWRTH 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi manylion ar sefyllfa ariannol all-dro ddarpariaethol hyd 31 Mawrth 2021 ar draws pob portffolio a manylion unrhyw amrywiadau sylweddol niweidiol a/neu ffafriol. Roedd yr adroddiad yn rhan o'r fframwaith adroddiadau ariannol chwarterol i Aelodau.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnodd sylw at bwyntiau | |

| | | |
|---|---|---|
| | ynddo. Roedd y sefyllfa ariannol ddarpariaethol gyffredinol ar 31 Mawrth 2021 yn dangos tanwariant o £161k yn erbyn cyfanswm cyllideb cyfalaf y flwyddyn o £17.78m. Dangosir y sefyllfa gyffredinol ar draws pob portffolio yn y tabl yn adran 5.1.1 yr adroddiad .<br><br>Gofynnodd Aelod os cafodd unrhyw gynlluniau cyfalaf eu oedi'n sylweddol oherwydd pandemig Covid.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau na wyddai am unrhyw gynlluniau cyfalaf a gafodd eu hoedi'n sylweddol. Mae'r pandemig wedi effeithio ar gostau ond dim ar weithredu prosiectau.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod y ffaith i ni fedru parhau â chontractau sylweddol yn ystod y pandemig yn ganmoliaeth i gontractwyr a staff. Wrth symud i chwarter 1, dywedodd fod rhai o'r elfennau gorwariant yn is nag a ragwelid a disgwyliai adroddiad mwy ffafriol yn ystod chwarteri 1 a 2.<br><br>Diolchodd Aelodau i staff yn yr adran Gwasanaethau Cymunedol am eu gwaith caled drwy gydol y pandemig.<br><br>Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar y cyfrif terfynol ar gyfer adeiladu Canolfan Ailgylchu Roseheyworth, a chadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y rhoddir adroddiad hyn i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad ac:<br><br>i. Ei fod yn rhoi her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad;<br>ii. Parhau i gefnogi gweithdrefnau rheoli ariannol priodol fel y cytunwyd gan y Cyngor; a<br>iii. Nodi'r gweithdrefnau rheoli a monitro cyllideb a weithredir o fewn y Tîm Cyfalaf, i ddiogeli cyllid yr Awdurdod. | |
| **No. 9** | **<u>DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n amlinellu sefyllfa all-dro cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2020/2021 fel ar 31 Mawrth 2021, yn amodol ar archwilio. | |

Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Roedd lefel cronfa gyffredinol wrth gefn y Cyngor a ddatgelwyd yn y cyfrifon statudol am y flwyddyn ariannol a ddiweddodd 31 Mawrth 2020 yn £6.399m sy'n gyfwerth â 4.73% o wariant refeniw net (fel yr adroddir yn ffurflenni All-dro Refeniw 2019/2020).£5.414m yw lefel targed gyfredol 4% cronfeydd wrth gefn cyffredinol.

Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion y cyfanswm cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a ddaliwyd ar ddiwedd chwarter 4 blwyddyn ariannol 2020/2021 (31 Mawrth 2021). Cafodd lefel y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ei benderfynu yn unol â'r protocol a gytunwyd ar gyfer cronfeydd wrth gefn. Roedd lefel y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi oedd ar gael i'r Awdurdod wedi cynyddu gan £12.509m yn 2020/2021.

Cadarnhaodd y Swyddog ar gyfer y cronfeydd wrth gefn hynny a ddefnyddiwyd i gyllido union wariant hyd 31 Mawrth 2021 (£1.022m), rhoddir manylion y gwariant a gyllidwyd yn Atodiad 2, a rhoddir manylion y symiau ychwanegol a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn (£13.687m) yn Atodiad 3.

Gofynnodd Aelod os y byddai'r Cyngor yn cael ei archwilio yn y dyfodol ar sut y gwnaethom wario Cyllid Caledi Llywodraeth Cymru ac efallai gael ein beirniadu am roi arian mewn cronfeydd wrth gefn.

Mewn ymateb dywedodd y Prif Swyddog y byddai Archwilio Cymru yn edrych ar lefel ein cronfeydd wrth gefn fel rhan o'u hadolygiad o gyfrifon diwedd y flwyddyn. Roedd yn hyderus y caiff y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ei wario'n briodol a bod y Cyngor yn parhau i ymateb a gwneud gwariant yng nghyswllt pandemig Covid. Fodd bynnag, dywedodd nad dyna'r rheswm am benderfynu'r lefel hon o gronfeydd wrth gefn.

Dilynodd trafodaeth fer pan gyfeiriodd Aelod at Atodiad 2 a gofynnodd pam fod gwariant Cyngor Chwaraeon Cymru o £29,700 ar gyfer adnewyddu'r ystafelloedd newid yng Nghanolfan Chwaraeon Abertyleri wedi dod allan o gronfeydd wrth gefn.

Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod hwn yn gais a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a dan delerau'r trefniant comisiynu bod y cyllid wedi dod i'r Cyngor

| | | |
|---|---|---|
| | a chael ei ddal gennym ni. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr aeth y prosiect yn ei flaen ac y cafodd y gwaith ei gwblhau.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach yng nghyswllt gwariant ar gyfer cyngor masnachol arbenigol ar Silent Valley, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y teimlid ei bod yn ddarbodus i sefydlu cronfa wrth gefn tra'n cynnal adolygiad o Silent Valley a rhoi peth arian o'r neilltu ar gyfer cyngor annibynnol allanol; tra'n cynnal diwydrwydd dyladwy.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at Atodiad 2, tudalen 82 a holodd am y diffiniad o Gytundebau Adran 106.<br><br>Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y gellid defnyddio Cytundebau Adran 106 i gefnogi unrhyw seilwaith priffyrdd ychwanegol neu uwchraddio seilwaith sydd ei angen fel rhan o ddatblygu ysgol newydd.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y gellid hefyd ddefnyddio arian Cytundebau Adran 106 i gefnogi'r stad ysgolion bresennol, h.y. os oes datblygiad tai newydd mewn dalgylch ysgol, gellid defnyddio elfen o gyllid Adran 106 i sicrhau seilwaith ysgol, adeiladu a chapasiti ychwanegol i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol a ddisgwylir fel canlyniad i'r datblygiad newydd. Fel rhan o flaenraglen gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu, cadarnhaodd y cyflwynir adroddiad yn amlinellu sut mae addysg wedi manteisio o Gytundebau Adran 106.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach am y £21k a amlinellir yn Atodiad 2 ar gyfer Cytundebau Adran 106, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y byddai'r cyllid hwn wedi ei ddyfarnu ar sail gwaith penodol fel y nodir yn y caniatâd cynllunio.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad ac ystyried defnydd cronfeydd wrth gefn a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn ystod 2020/2021 a:<br><br>i. Nodi'r cynnydd sylweddol mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fel canlyniad i amgylchiadau eithriadol ym mlwyddyn ariannol 2020/2021;<br>ii. Nodi fod drafft sefyllfa all-dro y gronfa wrth gefn gyffredinol ar £7.820m yn 5.78% o wariant refeniw net, yn uwch na'r lefel targed o 4%; | |

| | | |
|---|---|---|
| | iii. Wedi ystyried yr angen am reolaeth ariannol ddarbodus barhaus o gofio am y potensial ar gyfyngiadau gwariant cyhoeddus yn y dyfodol sydd eu hangen i gyllido effaith COVID-19; a<br>iv. Pharhau i herio gorwariant cyllideb a gweithredu cynlluniau gweithredu priodol gwasanaethau, lle mae angen.<br><br>Mae cadw cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio ar lefel ddigonol yn hollbwysig i'r Cyngor fedru ateb ymrwymiadau'r dyfodol o risgiau na wnaed darpariaeth penodol ar eu cyfer. | |
| **No. 10** | **RHAGLEN PONTIO'R BWLCH 2021/2022**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar yr Adolygiadau Busnes Strategol, yn cynnwys all-dro darpariaethol ar gyfer 2020/2021 a'r asesiad diweddaraf o'r cyflawniad ariannol ar gyfer 2021/22 ymlaen.<br><br>Wedyn aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y benthyciad gwella rheilffyrdd a gofynnodd os y byddai'r Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) yn weithredol.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Prif Swyddog pe cytunid ar y buddsoddiad a benthyciad rheilffyrdd, y byddai'n effeithio ar MRP yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai'r incwm y disgwyliwn ei dderbyn gan Trafnidiaeth Cymru i gyllido'r benthyciad yn lliniaru'r cynnydd mewn MRP yn y dyfodol.<br><br>Mynegodd Aelod bryder y dylai'r goblygiadau ariannol pe na fyddid yn sicrhau'r lefel ddisgwyliedig o incwm.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog y deallai pe byddai'r incwm tocynnau yn annigonol ei bod yn rhan o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid digonol drwy Trafnidiaeth Cymru i'w galluogi i gyllido'r ffi datblygu asedau i'r swm llawn.<br><br>Gofynnodd Aelod os byddai hyn yn cynnwys MRP a chadarnhaodd y Swyddog y byddai'r effaith ar MRP yr un fath.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach cadarnhaodd y Prif Swyddog y | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynhelir asesiad effaith ar holl gynigion Pontio'r Bwlch.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a'i fod yn rhoi her priodol i raglen Pontio'r Bwlch. | |